Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | **31.07.25** |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymateb parthed Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae'r canllawiau drafft yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr ac ymarferol sy'n berthnasol ar gyfer ystod eang o weithwyr addysg proffesiynol. Mae'n cysylltu polisi ag arfer, cyfrifoldeb ysgol gyfan sylfaenol ac atebolrwydd unigol. Gydag ychydig o fireinio, mae ganddynt botensial i gefnogi ysgolion a lleoliadau i atal pob math o fwlio, ac ymateb iddynt.

Mae'r drafft yn cyd-fynd yn dda â meysydd polisi, fframweithiau deddfwriaethol a dogfennau canllawiau ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'n dangos ymrwymiad cyson i gynnwys, diogelu a chefnogi dysgwyr â nodweddion gwarchodedig. Mae'r canllawiau drafft yn rhoi disgrifiad clir a manwl o'r cyfrifoldebau cyfreithiol a roddir ar ysgolion a chyrff llywodraethol o ran atal bwlio a mynd i'r afael ag ef.

Mae'r canllawiau'n diffinio'n glir gyfrifoldebau awdurdodau lleol (ALlau) o ran atal a rheoli bwlio ar draws lleoliadau addysgol yng Nghymru. Fodd bynnag, er bod y canllawiau yn enwi awdurdodau lleol fel rhanddeiliaid allweddol drwyddi draw, nid oes adran ddynodedig ar wahân yn amlinellu eu cyfrifoldebau mewn un lle. Gallai hyn gyfyngu ar ba mor hawdd y gall ALlau lywio a chyflawni eu dyletswyddau.

Mae'r dogfennau canllawiau drafft yn dangos integreiddio cryf a bwriadol gydag ystod eang o feysydd polisi, fframweithiau deddfwriaethol a dogfennau arweiniad ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae'r canllawiau drafft yn dangos ymrwymiad cryf a chyson i gynnwys, diogelu a chefnogi dysgwyr â nodweddion gwarchodedig. Mae'r canllawiau drafft, ar y cyfan, wedi'u strwythuro'n glir, wedi'u trefnu'n rhesymegol, ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith broffesiynol hygyrch.

Yn strwythurol, mae'r canllawiau wedi eu trefnu'n rhesymegol ac wedi'u hysgrifennu'n broffesiynol, ond gan eu bod yn 88 tudalen, gallai eu hyd gyfyngu ar eu defnyddioldeb o ddydd i ddydd. Byddent yn elwa ar fformatau cryno, offer gweledol, ac adnoddau

gweithredu. Er bod y pwyslais ar ddata, cydraddoldeb ac atebolrwydd yn gryf, mae offer ymarferol ar gyfer adrodd, cofnodi a hyfforddiant yn gyfyngedig.

Gallai'r canllawiau gefnogi lleoliadau amrywiol yn well, hefyd, yn enwedig UCDau, lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol, y blynyddoedd cynnar, a chyfnodau pontio. Byddai ffocws cliriach ar gydraddoldeb o ran y Gymraeg a rhoi cymorth ar waith yn raddol yn cryfhau'r cynnig ymhellach.

Mae ystyriaethau ychwanegol i gryfhau'r canllawiau yn cynnwys y canlynol:

- O ystyried y diweddariadau sylweddol i'r canllawiau, byddai ysgolion, yn enwedig lleoliadau llai neu leoliadau heb adnoddau digonol, yn elwa ar gynllun gweithredu graddol a chymorth atodol.
- Gallai Llywodraeth Cymru ystyried llunio crynodeb o newidiadau o fersiynau blaenorol.
- Llinell amser ar gyfer adolygu polisïau a diweddariadau hyfforddiant.
- Gweminar neu fodiwl e-ddysgu i dywys staff a llywodraethwyr trwy'r elfennau allweddol.
- Er bod cyfeiriad at lais y dysgwr ac ymgysylltiad cymunedol, gellid cryfhau'r canllawiau ag offer neu fframweithiau mwy pendant ar gyfer cyd-greu polisïau gwrthfwlio gyda dysgwyr a rhieni.
- Gall ymddygiadau bwlio ddechrau yn y blynyddoedd cynnar, ond mae canllawiau penodol ar gyfer lleoliadau o'r fath yn gyfyngedig.
- Yn ychwanegol, mae cyfnodau pontio (e.e. Blwyddyn 6 i Flwyddyn 7) yn risg uchel ar gyfer achosion o fwlio yn dod i'r amlwg. Byddai cyngor ychwanegol neu astudiaethau achos o amgylch gwaith ataliol yn ystod y cyfnodau pontio hyn yn fuddiol.

Oherwydd y gofynnir yn gynyddol i ysgolion gasglu a dadansoddi data ar fwlio, byddai mwy o eglurhad am ddiogelu data a phrotocolau ar wneud data yn ddienw (e.e. o dan GDPR) yn fuddiol, yn enwedig mewn ysgolion bach lle gall adrodd achosi risg o adnabod unigolion.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**C 1: A yw'r 'Canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb' drafft yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ac ymarferol addas ar gyfer arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol i lywio dulliau o atal ac ymateb i bob math o fwlio?**

**Ydyn**

**Sylwadau ategol:** At ei gilydd, mae'r canllawiau drafft yn gynhwysfawr, yn ymarferol ac wedi'u cynllunio'n dda i gynorthwyo arweinwyr ysgolion, athrawon ac ymarferwyr eraill ar draws ystod o leoliadau yng Nghymru. Maent yn cynnig fframwaith clir ar gyfer mynd i'r afael â bwlio mewn ffordd sy'n gynhwysol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Maent yn addas ac

yn ymarferol ar gyfer arweinwyr, athrawon a staff cymorth sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Maent yn defnyddio ymchwil, yn cyd-fynd â dyletswyddau deddfwriaethol, ac yn adlewyrchu datblygiadau cymdeithasol ac addysgol diweddar.

Mae'r ddogfen yn cynnig diffiniad trylwyr a chynnil o fwlio (adran 2.24), gan bwysleisio'i natur ailadroddus, fwriadol a niweidiol. Mae'n gwahaniaethu bwlio oddi wrth achosion unigol o wrthdaro ac yn amlinellu nodweddion penodol fel anghydbwysedd grym, ailadrodd a niwed emosiynol. Mae'n categoreiddio ffurfiau o fwlio yn gynhwysfawr, gan gynnwys bwlio yn gysylltiedig â rhagfarn, bwlio rhywiol, perthynol, ar-lein a chorfforol, gan gynorthwyo ymarferwyr i nodi'n gywir. Mae ffocws ysgol gyfan a strategol yn cefnogi dull ysgol gyfan, sy'n cael ei ymgorffori ar draws polisïau, arweinyddiaeth, y cwricwlwm, a gofal bugeiliol. Mae'n argymell y dylid penodi arweinwyr gwrthfwlio mewn ysgolion ac yn amlinellu eu cyfrifoldebau mewn termau ymarferol (adran 6.4). Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu diwylliannau ysgol cynhwysol, lle mae llais y dysgwr a'r gymuned yn sbardunau allweddol.

Mae'r canllawiau'n cynnwys adrannau manwl ar fwlio yn gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig (e.e. hil, anabledd, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol) ac yn mynd i'r afael â chroestoriadedd yn ystyriol. Mae'r ddogfen yn cysylltu polisi â materion cyfoes fel y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, cynhwysiant LHDTC+, a'r Cynllun Gweithredu Aflonyddu Rhywiol rhwng Cyfoedion. Mae'r canllawiau'n neilltuo adran gyfan (Adran 4) i fwlio ar-lein, gan drafod heriau a achosir gan anhysbysrwydd, uwchgyfeirio trwy blatfformau cymdeithasol, a chadw tystiolaeth yn ddiogel. Mae'n cynnig cyngor penodol ar ddiogelu, yn cofnodi digwyddiadau, ac yn ymateb yn briodol. Mae'r canllawiau'n cyd-fynd â rhwymedigaethau statudol (adran 5). Mae'r canllawiau cyfreithiol hyn yn helpu arweinwyr ysgolion i sicrhau cydymffurfiad tra'n cryfhau fframweithiau atebolrwydd. Mae'n darparu gweithdrefnau fesul cam ar gyfer nodi digwyddiadau, adrodd amdanynt, ac ymateb iddynt (adran 9), gan gynnwys ymgysylltu â phob parti: targedau, cyflawnwyr a gwyliedyddion. Mae Adran 10 yn amlinellu ymyriadau addas fel cyfryngu, dulliau adferol, a chymorth cyfoedion, gan roi pecyn cymorth o ymatebion i ysgolion. Mae'r canllawiau'n cyfeirio at becyn cymorth ar-lein ar Hwb ac yn annog defnydd o arolygon, casglu data, a fframweithiau hunanwerthuso ar gyfer gwelliant parhaus. Maent yn cynnwys atodiad cynhwysfawr o asiantaethau cymorth allanol, sy'n ei gwneud yn ymarferol ar gyfer atgyfeirio neu waith partneriaeth uniongyrchol.

**Meysydd i'w hystyried ar gyfer gwella**

Gellid cryfhau'r canllawiau drafft ymhellach trwy:

- gynnwys templedi golygadwy ar gyfer polisïau, ffurflenni monitro a llythyrau cyfathrebu â rhieni yn uniongyrchol yn y canllawiau;
- darparu enghreifftiau sy'n benodol i leoliad ac ychwanegu astudiaethau achos cyd-destunol sydd wedi'u teilwra i UCDau a lleoliadau AHY, sy'n mynd i'r afael â heriau fel cefnogi dysgwyr â hanesion trawma cymhleth;

- ehangu cymorth cwricwlwm a DPP trwy gynnig mwy o ganllawiau ar y cwricwlwm a mapio llwybrau DPP clir i helpu ysgolion, UCDau a darparwyr AHY i roi'r canllawiau ar waith yn effeithiol.

**C 2: A yw'r 'Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb' yn amlinellu'n glir beth yw cyfrifoldeb cyfreithiol yr ysgol a'r llywodraethwyr?**

**Ydyn**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r canllawiau drafft yn rhoi disgrifiad clir a manwl o'r cyfrifoldebau cyfreithiol a osodir ar ysgolion a chyrff llywodraethol yn gysylltiedig ag atal bwlio, a mynd i'r afael ag ef. Mae'n seilio'r cyfrifoldebau hyn mewn dyletswyddau statudol, yn egluro disgwyliadau Llywodraeth Cymru, ac yn darparu cyfarwyddyd pendant ar sut dylai cyrff llywodraethol a phenaethiaid ymgorffori arferion gwrthfwlio mewn gweithdrefnau llywodraethu ysgolion a gweithdrefnau gweithredol.

**C 3: A yw'r 'Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb' yn amlinellu'n glir beth yw cyfrifoldebau'r awdurdod lleol?**

**Ydyn**

**Sylwadau ategol:** Mae'r canllawiau'n diffinio'n glir beth yw cyfrifoldebau awdurdodau lleol (ALlau) yn gysylltiedig ag atal a rheoli bwlio ar draws lleoliadau addysgol yng Nghymru. Er nad yw mor fanwl â'r cyfrifoldebau a amlinellir ar gyfer ysgolion a chyrff llywodraethol, mae'r ddogfen yn darparu fframwaith cydlynus a chyson ar gyfer ymglymiad ALl mewn swyddogaethau arweinyddiaeth, cydymffurfio, cymorth ac atebolrwydd. Mae hefyd yn gosod ALlau yn asiantau allweddol i sicrhau bod arferion gwrthfwlio yn cyd-fynd â rhwymedigaethau statudol a pholisi ehangach Llywodraeth Cymru. Er bod y canllawiau'n enwi awdurdodau lleol fel rhanddeiliaid allweddol, nid oes adran ddynodedig, ar wahân, yn amlinellu eu cyfrifoldebau mewn un lle. Gallai hyn gyfyngu ar ba mor hawdd y gall ALlau lywio a chyflawni eu dyletswyddau.

**C 4: A yw'r 'Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb' yn cysylltu'n briodol â meysydd polisi ehangach a chanllawiau ar destunau ar wahân ond cysylltiedig?**

**Ydyn**

Mae'r canllawiau drafft yn dangos integreiddio cryf a bwriadol gydag ystod eang o feysydd polisi, fframweithiau deddfwriaethol a dogfennau canllawiau ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'r cysylltiadau hyn yn helpu sicrhau bod ysgolion yn ymdrin â gwaith gwrthfwlio mewn modd cyfannol, cynhwysol ac ataliol, yn seiliedig ar hawliau, yn hytrach na thrin bwlio ar wahân. Mae'r ddogfen yn mynd ati i hyrwyddo dull meddwl systemau, gan wreiddio atal o fewn fframweithiau cenedlaethol ar gyfer lles, cydraddoldeb, cynhwysiant, diogelu a diwygio'r cwricwlwm.

**Os na, a oes cysylltiadau â meysydd cysylltiedig nad ydynt yn cael eu gwneud yn y canllawiau y dylid eu gwneud?**

**C 5: A yw dysgwyr â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys?**

**Ydyn**

**Sylwadau ategol:**

Mae'r canllawiau drafft yn dangos ymrwymiad cryf, eglur a chyson i gynnwys, diogelu, a chefnogi dysgwyr â nodweddion gwarchodedig. Maent yn cydnabod y bregusrwydd penodol sy'n wynebu'r dysgwyr hyn o ran bwlio, gwahaniaethu, a bod ar y cyrion, ac yn darparu disgwyliadau manwl ar gyfer sut dylai ysgolion a lleoliadau atal ac ymateb i fwlio yn gysylltiedig â rhagfarn mewn ffyrdd strategol ac ymarferol, fel ei gilydd. Gallai fod cyfle i'r canllawiau gyfeirio'n eglur at garfanau risg uchel nad ydynt yn cael eu henwi yn y Ddeddf Cydraddoldeb, fel plant sy'n derbyn gofal, ffoaduriaid a dysgwyr sy'n geiswyr lloches, a gofalwyr ifanc.

**C 6: A yw'r 'Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb' yn cael eu hesbonio'n glir?**

**Ydyn**

**Os na, pa feysydd y gellid eu gwella, a pham? A oes agweddau yr ydych yn eu hoffi'n arbennig, ac os felly, pam?**

Mae'r canllawiau drafft, ar y cyfan, wedi'u strwythuro'n glir, wedi'u trefnu'n rhesymegol, ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir a phroffesiynol. Maent yn llwyddo i esbonio dyletswyddau statudol ac argymell arfer dda mewn termau sy'n cael eu deall yn hawdd gan arweinwyr ysgolion, athrawon, llywodraethwyr, staff cymorth a swyddogion awdurdodau lleol.

Mae'r ddogfen wedi'i threfnu mewn adrannau thematig wedi'u rhifo sy'n llifo'n gydlynus. Mae pob adran wedi'i rhannu'n is-benawdau cryno, gyda thestun esboniadol sy'n helpu darllenwyr i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym. Mae diffiniadau o fwlio a chysyniadau cysylltiedig—fel bwlio yn gysylltiedig â rhagfarn, anghydbwysedd grym ac ailadrodd—yn gynhwysfawr ac wedi'u gwahaniaethu'n glir o ymddygiadau eraill (gwrthdaro, pryderon ynghylch diogelu, chwarae'n gas). Mae ymadroddion fel "rhaid", "mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl" ac "rydym yn argymell" yn gwneud statws pob gofyniad yn ddiamwys.

Drwyddi draw, mae enghreifftiau ymarferol yn dangos sut beth yw arfer effeithiol (er enghraifft, cofnodi digwyddiadau, defnyddio dulliau adferol, gosod nodau polisi). Amlinellir ffactorau risg yn seiliedig ar senario, ac mae enghreifftiau'n defnyddio lleoliadau amrywiol (prif ffrwd, UCD, addysg heblaw yn yr ysgol), hyd yn oed os oes llai o fanylder mewn rhai ohonynt. Mae croesgyfeiriadau at ganllawiau, polisïau ac offer cysylltiedig yn helpu darparwyr i lywio'r tirlun polisi ehangach heb orlwytho'r prif naratif. Mae'r naws yn parhau i fod yn broffesiynol ond eto'n hygyrch: nid oes llawer o jargon neu mae'n cael ei esbonio, a chaiff termau allweddol eu cyflwyno'n gynnar, ac ailedrychir arnynt pan fydd hyn yn fuddiol.

**Meysydd i'w cryfhau**

Byddai mynd i'r afael â'r pwyntiau canlynol yn gwneud y canllawiau hyd yn oed yn haws i'w defnyddio tra'n diogelu eu hymdriniaeth gynhwysfawr:

- Gallai'r canllawiau, sy'n 88 tudalen, ddigalonni staff sy'n brin o amser. Byddai crynodeb gweithredol cryno neu fersiwn "cyfeirio cyflym" yn cynorthwyo defnydd o ddydd i ddydd.
- Gallai cymhorthion gweledol fel siartiau llif, ffeithluniau neu dempledi model egluro llwybrau adrodd, rolau a chysylltiadau â pholisïau cysylltiedig (diogelu, cynhwysiant) ar amrantiad.
- Byddai rhestrau gwirio bras "wrth ddechrau arni" neu enghreifftiau wedi'u hanodi yn helpu ymarferwyr newyddach a lleoliadau llai sydd â chapasiti cyfyngedig.
- Pan mae enghreifftiau'n cyfeirio at UCDau neu AHY, ystyriwch ehangu'r manylion neu gyfeirio at ddeunydd atodol.

**C 7: A yw'r 'Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb' yn hawdd i'w defnyddio?**

**Ydyn**

**Os na, pa feysydd y gellid eu gwella, a pham? A oes agweddau yr ydych yn eu hoffi'n arbennig, ac os felly, pam?**

Mae'r Canllawiau drafft Hawliau, Parch, Cydraddoldeb yn hygyrch, ar y cyfan, gyda bwriad polisi a strwythur rhesymegol clir. Fodd bynnag, mae'r ffaith eu bod yn hawdd i'w

defnyddio yn cael ei chyfyngu ar hyn o bryd gan eu hyd, eu diffyg offer gweledol a dolenni llywio.

I wella defnyddioldeb ar gyfer cynulleidfa ehangach, yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn amgylcheddau lle mae amser yn brin, dylai Llywodraeth Cymru ystyried: datblygu offer a thempledi atodol, creu crynodebau a siartiau llif gweledol, yn cynnwys fersiynau digidol rhyngweithiol a darparu canllawiau cyflym sy'n benodol i rôl. Byddai gwelliannau o'r fath yn sicrhau bod y canllawiau nid yn unig yn cael eu deall ond yn cael eu defnyddio'n weithredol ac yn effeithiol ar draws lleoliadau addysg Cymru.

**C 8: A ddylai meysydd eraill nad ydych chi wedi cael cyfle i roi sylwadau arnynt uchod gael eu cynnwys yn y 'Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb'? Os felly, rhowch fanylion.**

**Dylen**

**Sylwadau ategol:**

Gallai fod yn fuddiol i'r canllawiau gynnwys siart llif yn cysylltu gweithdrefnau ysgolion â thimau diogelu awdurdodau lleol, llwybrau casáu troseddau Heddlu Cymru a dyletswyddau yn deillio o'r Bil Diogelwch Ar-lein, i egluro uwchgyfeirio amlasiantaethol.

**C 9: Pa mor ddefnyddiol yw'r 'Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb', yn eich barn chi?**

**Defnyddiol iawn**

**Os ydych chi wedi ateb 'gweddol ddefnyddiol', 'ychydig yn ddefnyddiol' neu 'ddim yn ddefnyddiol o gwbl', beth yw'r gwelliannau yr hoffech eu gweld?**

**C 10: A yw'r gyfres bresennol o hyfforddiant ar Hwb yn cefnogi'r defnydd o'r 'Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb'?**

**Ydy**

**C 11: Pa mor ddefnyddiol yw'r 'Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb' i'ch cynorthwyo i adrodd am achosion o fwlio, a'u cofnodi?**

**Gweddol ddefnyddiol**

**Sylwadau ategol:**

Er bod y canllawiau'n amlygu'n effeithiol bwysigrwydd hanfodol cofnodi achosion o fwlio, ac adrodd amdanynt, yn enwedig o ran cydraddoldeb ac atebolrwydd, byddent yn gryfach pe bai offer gweithredol cliriach a fframweithiau gweithdrefnol manwl yn cael eu cynnwys.

Byddai ysgolion yn elwa ar gymorth mwy ymarferol, fel templedi, protocolau fesul cam, ac enghreifftiau o astudiaethau achos, i helpu sefydlu systemau adrodd cyson a chadarn. Heb yr elfennau ymarferol hyn, gallai gweithredu amrywio'n eang, gan danseilio'r cysondeb a'r effeithiolrwydd y mae'r canllawiau'n ceisio'u hyrwyddo, o bosibl.

Gallai fod yn werth archwilio posibilrwydd sefydlu platfform digidol cenedlaethol neu leol ar gyfer cofnodi achosion o fwlio (addasu trwy Hwb/G6, er enghraifft), gyda meysydd data addas ac allforion awtomatig i ddangosfyrddau awdurdodau lleol.

Gallai fod yn fuddiol i Lywodraeth Cymru osod dangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol clir ac ymrwymo i gynnal adolygiad ffurfiol ar ôl dwy flynedd (haf 2027) i fesur cyfranogiad ac effaith—er enghraifft, cyfran yr ysgolion sy'n defnyddio'r templed, gostyngiadau mewn achosion mynych a gwelliannau yn sgorau arolwg "teimlo'n ddiogel" dysgwyr.

**C 12: I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylid diwygio 'Rheoliadau Addysg (Safleoedd Ysgolion) 1999' i'w gwneud yn glir y gallai ysgolion ddarparu toiledau rhywedd-niwtral yn ogystal â thoiledau rhywiau ar wahân?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylwadau ategol:**

Gallai diwygio Rheoliadau Addysg (Safleoedd Ysgolion) 1999 i egluro y gallai ysgolion ddarparu toiledau rhywedd-niwtral olygu bod y gyfraith yn cyd-fynd â: Deddf Cydraddoldeb 2010, yn enwedig o ran cefnogi dysgwyr trawsryweddol ac anneuaidd o dan nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) – sy'n cynnal yr hawl i urddas, preifatrwydd, diogelwch a dim gwahaniaethu. Mae'r canllawiau drafft yn amlygu'r angen i greu amgylcheddau diogel, parchus a chynhwysol ar gyfer pob dysgwr, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o fwlio oherwydd hunaniaeth neu fynegiant rhywedd. Mae darparu toiledau rhywedd-niwtral ochr yn ochr â'r toiledau rhywiau ar wahân angenrheidiol yn cynnig mwy o urddas a dewis i ddysgwyr, yn lleihau gorbryder neu ofid yn gysylltiedig â chyfleusterau yn benodol i rywedd, ac yn fesur rhagweithiol i atal aflonyddu neu eithrio. Mae'r safbwynt hwn yn gyson â:

Chynllun Gweithredu LHDTC+ ar gyfer Cymru, sy'n cefnogi gofodau a gwasanaethau cynhwysol, y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n cynnwys addysgu am barch ar

gyfer hunaniaethau rhywedd amrywiol a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, sy'n pwysleisio bod rhaid i ofodau diogel adlewyrchu hunaniaethau a phrofiadau amrywiol dysgwyr. Mae'r rheoliadau presennol o 1999 yn rhag-ddyddio'r diwygiadau mawr hyn o ran cynhwysiant ac nid ydynt yn adlewyrchu cyd-destunau diogelu na chydraddoldeb cyfoes. Byddai diwygiad yn cynnig eglurder a sicrwydd i arweinwyr ysgolion fod darpariaeth rhywedd-niwtral yn gyfreithlon os yw'n ychwanegol i'r ddarpariaeth rhywiau ar wahân, ac yn lleihau risg o anghysondeb neu ddadlau wrth roi arfer gynhwysol ar waith.

**C 13: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol diwygio'r 'Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb' ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb yn arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

Trwy ddarparu fersiynau cwbl ddwyieithog o'r canllawiau a'r deunyddiau cysylltiedig, cefnogir ysgolion i weithredu'n hyderus yn Gymraeg, gan atgyfnerthu eu defnydd mewn datblygu polisïau, hyfforddiant staff, ymgysylltu â dysgwyr, a systemau adrodd.

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

Sicrhewch fod yr holl ddeunyddiau ategol a hyfforddiant (e.e. adnoddau Hwb, datblygiad staff, arolygon dysgwyr) ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg gyda'i gilydd. Dylech hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn mentrau llais y dysgwr, e.e. cynghorau ysgol, ymgyrchoedd gwrthfwlio wedi'u harwain gan gyfoedion, arferion adferol—gan sicrhau bod dysgwyr yn gallu trafod lles a hunaniaeth yn yr iaith o'u dewis nhw.

**C 14: Yn eich barn chi, a allai'r 'Canllawiau gwrthfwlio hawliau, parch, cydraddoldeb' diwygiedig gael eu ffurfio neu'u newid er mwyn:**

**- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**

**- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

I gryfhau statws y Gymraeg a'r defnydd ohoni yn unol â Safonau'r Gymraeg a strategaeth Cymraeg 2050, gellid diwygio'r canllawiau i gynnwys bwlio yn seiliedig ar iaith yn glir fel ffurf gydnabyddedig o aflonyddu yn gysylltiedig â rhagfarn, p'un a yw hynny yn erbyn siaradwyr Cymraeg neu ddysgwyr Saesneg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Dylid hyrwyddo'r syniad bod defnyddio'r Gymraeg nid yn unig yn hawl ond yn ffurf ar hunaniaeth ddiwylliannol y dylid ei diogelu a'i dathlu yn rhan o gynhwysiant ysgol gyfan.

I atal y Gymraeg rhag cael ei gwthio i'r cyrion yn anfwriadol, gallai'r canllawiau hefyd sicrhau bod yr holl ddeunyddiau atodol yn cael eu cyhoeddi gyda'i gilydd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn cynnwys offer y cyfeirir atynt ar Hwb, modiwlau DPP, templedi, canllawiau gweledol, a thaflenni olrhain data. Dylech gynnwys datganiad bras yn cadarnhau y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn yr holl ohebiaeth a'r polisi gwrth-fwlio, a byddai arfer yn atgyfnerthu cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nodwch risgiau gwahaniaethu ar sail iaith. Dylech gynnwys adran yn egluro bod gwatwar, gwthio'r Gymraeg i'r cyrion, neu atal defnydd o'r Gymraeg (neu unrhyw iaith) yn ffurf ar ymddygiad yn gysylltiedig â rhagfarn, a rhaid mynd i'r afael â hyn trwy weithdrefnau gwrthfwlio'r ysgol.

**C 15: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:**

Mae'r canllawiau Hawliau, Parch, Cydraddoldeb yn fframwaith polisi amserol a blaengar.

Er bod y canllawiau'n gynhwysfawr, mae llawer o faterion cysylltiedig sy'n werth eu hamlygu nad aethpwyd i'r afael â nhw yn uniongyrchol yn y cwestiynau blaenorol:

O ystyried y diweddariadau sylweddol i'r canllawiau, byddai ysgolion—yn enwedig lleoliadau llai neu leoliadau nad oes ganddynt adnoddau digonol—yn elwa ar gynllun gweithredu graddol a chymorth atodol. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried creu crynodeb o newidiadau o fersiynau blaenorol. Llinell amser ar gyfer adolygu polisïau a diweddariadau hyfforddiant. Gweminar neu fodiwl e-ddysgu i dywys staff a llywodraethwyr trwy'r elfennau allweddol. Er bod cyfeiriad at lais y dysgwr ac ymgysylltiad cymunedol, gellid cryfhau'r canllawiau ag offer neu fframweithiau mwy pendant ar gyfer cyd-greu polisïau gwrthfwlio gyda dysgwyr a rhieni. Gall ymddygiadau bwlio ddechrau yn y blynyddoedd cynnar, ond mae canllawiau penodol ar gyfer lleoliadau o'r fath yn gyfyngedig. Yn ychwanegol, mae cyfnodau pontio (e.e. Blwyddyn 6 i Flwyddyn 7) yn risg uchel i achosion o fwlio yn dod i'r amlwg. Byddai cyngor ychwanegol neu astudiaethau achos ynghylch gwaith ataliol yn ystod y cyfnodau pontio hyn yn ddefnyddiol. Oherwydd y gofynnir yn gynyddol i ysgolion gasglu a dadansoddi data ar fwlio, byddai mwy o eglurhad am ddiogelu data a phrotocolau ar wneud data yn ddienw (e.e. o dan GDPR) yn fuddiol, yn enwedig mewn ysgolion bach lle gall adrodd achosi risg o adnabod unigolion.